Pecyn Cais 2024

Ysgol Haf Ballet Rhyngwladol Cymru

Ballet Cymru

Ballet Cymru

Mae Ballet Cymru yn gwmni ballet teithiol rhyngwladol ar gyfer Cymru, sy'n ymrwymedig i gynhwysiant ac arloesedd mewn dawns a ballet clasurol, ac i'r safon uchaf o gydweithio. Mae ei raglen mynediad ac allgymorth helaeth yn ymrwymedig i chwalu'r rhwystrau sy'n atal mynediad at y celfyddydau.

Mae Ballet Cymru wedi'i leoli yn Nhŷ-du, Casnewydd, ac mae wedi bod yn cynnal cyrsiau dawns dwys yng Nghymru ers dros ugain mlynedd.

Gwybodaeth am y Cwrs

Mae ein cwrs dwys proffesiynol dros yr haf, sef Ysgol Haf Ballet Rhyngwladol Cymru (WIBSS), yn cael ei gynnal yn Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon. Ymunwch â ni ar y cwrs dwys hwn sy'n wythnos o hyd, lle bydd dosbarthiadau'n cael eu haddysgu gan gyfarwyddwyr y cwmni ac athrawon gwadd, a'r repertoire dan arweiniad dawnswyr proffesiynol y cwmni. Byddwn hefyd yn croesawu Marcus Jarrell Willis, Cyfarwyddwr Artistig y Phoenix Dance Theatre, yn ôl, a fydd yn creu gwaith newydd ar gyfer y rhai a fydd yn cymryd rhan yn Ysgol Haf Ballet Rhyngwladol Cymru.

Mae'r cwrs yn cynnwys dosbarth ar dechneg ballet, repertoire ballet a choreograffi newydd, ynghyd â gwaith pointe ychwanegol, hyfforddiant ar dechneg, pas de deux, cyfoes, cyflyru ac ymestyn. Nid yw'n ofynnol cael unrhyw brofiad o waith pointe ar gyfer y cwrs hwn.

Bydd y gwaith a fydd yn cael ei greu yn ystod yr wythnos yn cael ei berfformio ar ddiwrnod olaf y cwrs. Bydd y perfformiad hwn ar y prif lwyfan yn Theatr Glan yr Afon, a bydd yn rhad ac am ddim i deulu a ffrindiau sydd am fod yn bresennol.

Mae Ballet Cymru yn ymdrechu i fod yn gwmni cynhwysol ac yn croesawu ceisiadau gan ddawnswyr ag anableddau neu'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig.

Rhaid i gyfranogwyr wneud cais am le ar y cwrs a dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael. Anogwn ymgeiswyr i wneud cais cynnar er mwyn sicrhau gwell siawns o gael eich dewis ar gyfer y cwrs.

Dyddiadau'r Cwrs

Dydd Llun 29 Gorffennaf i ddydd Gwener 2 Awst 2024

Bydd y cwrs yn rhedeg bob dydd rhwng 9.30am a 5.30pm.

Bydd y perfformiad ddydd Gwener 2 Awst rhwng 6.00pm a 7.00pm.

Lleoliad

Theatr Glan yr Afon
Kingsway
Casnewydd
NP20 1HG

Sylwch nad cwrs preswyl fydd hwn, a rhaid i gyfranogwyr drefnu eu llety eu hunain. Cysylltwch â Louise Lloyd os oes arnoch angen cyngor ynghylch lle i aros yn lleol ar gyfer y cwrs.

Ffi y Cwrs

Mae'r cwrs yn costio £275. Dim ond ar ôl i ni gadarnhau eich lle ar y cwrs y bydd yn rhaid talu. Nid oes yna ffi am wneud cais.

Taliadau ac Ysgoloriaethau

Os yw cost y cwrs yn rhwystr i chi, peidiwch â gadael i hyn eich atal rhag gwneud cais. Os cewch eich derbyn, gallwn gynnig opsiynau talu gwahanol a/neu ysgoloriaeth ar gyfer cost y cyrsiau. Gofynnwch am ffurflen bwrsariaeth wrth wneud cais, neu lawrlwythwch ffurflen gais am fwrsariaeth yma. Rydym am i fwynhad ballet fod yn hygyrch i bawb.

Bwrsariaeth Stanley Hawkins – Ysgol Haf Ballet Rhyngwladol Cymru

Bob blwyddyn, mae'r London Ballet Circle yn ariannu bwrsariaeth Stanley Hawkins ar gyfer un unigolyn sy'n cymryd rhan yn Ysgol Haf Ballet Rhyngwladol Cymru. Mae'r fwrsariaeth, sy'n werth £500, yn cynnwys cost y cwrs ac yn cyfrannu at gost llety (o fewn cyllideb). Nodwch nad yw'r fwrsariaeth yn cynnwys costau teithio, bwyd na chostau byw. Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y fwrsariaeth hon, anfonwch lythyr o ran ystyriaeth at Louise Lloyd ynghyd â'ch ffurflen gais. Yn y llythyr dylech gynnwys eich sefyllfa bresennol o ran hyfforddiant neu waith, y cyfeiriad yr hoffech fynd iddo nesaf, pam yr hoffech gymryd rhan yn Ysgol Haf Ballet Rhyngwladol Cymru, a'r modd y byddai'r fwrsariaeth yn hwyluso'r cyfle hwn.

I LENWI'R FFURFLEN GAIS AR-LEIN, CLICIWCH YMA

Canllawiau ar Wneud Cais

Mae'r cwrs hwn ar gyfer dawnswyr proffesiynol, graddedigion, a'r rheiny sy'n cwblhau blwyddyn olaf eu hyfforddiant galwedigaethol. Disgwylir i ymgeiswyr fod yn 16 oed neu hŷn. Rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais ar-lein ac anfon ffotograffau a/neu glipiau fideo gyda'u cais. Neilltuir lleoedd ar y cwrs i ymgeiswyr ar sail y cyntaf i'r felin, dim ond os ydynt yn bodloni'r meini prawf a ddisgwylir ar gyfer y cwrs. Rhaid cyflwyno ceisiadau cyn **dydd Gwener 28 Mehefin 2024** ac os byddant yn dod i law ar ôl y dyddiad hwn efallai na fyddant yn cael eu hystyried. Os na fyddwch yn cael ymateb cyn pen pedair wythnos ar ôl cyflwyno eich cais, rhowch gynnig arall ar gysylltu â ni. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses o wneud cais, anfonwch neges e-bost at louiselloyd@welshballet.co.uk.

ballet cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
the riverfront glan yr afon
The London Ballet Circle